

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol Ebrill 2012 – Mawrth 2013

### Ffuriau Hygyrch

Bydd y ddogfen hon a'r dogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ffurfiau safonol Microsoft Word a PDF mewn ffont Arial maint 12. Bydd ffurfiau hygyrch eraill, yn cynnwys print bras, Braille, iaith arwyddion Prydain DVD, hawdd ei ddarllen, sain ac electronig ac ieithoedd eraill ar gael, ar gais.

Tîm Amrywiaeth Cymunedol  
Adran Lles Cymunedol a Datblygu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham  
16 Stryt yr Arglwydd  
Wrexham  
LL11 1LG

Rhif ffôn: 01978 298736

E-bost: [onewrexham@wrexham.gov.uk](mailto:onewrexham@wrexham.gov.uk)



## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

### Adroddiad Blynyddol 2012-13

#### Cynnwys:

Adran		Rhif Tudalen
	Rhagair	3
1	Crynodeb gweithredol	4
2	Cyflwyniad a chefnidir	5
3	Cynnydd yn erbyn dyletswyddau penodol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011	6
4	Cynnydd yn erbyn dyletswyddau cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010	11
5	Casglu gwybodaeth ac Ymgysylltu	12
6	Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol	14
7	Gweithwyr Cyngor Wreccsam	14
8	Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	15
9	Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth	17
10	Caffael	18
11	Casgliad a phrif gamau gweithredu ar gyfer 2013-14	19
12	<u>Atodiadau</u>	
	1. Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol	21
	2. Gwybodaeth am Gydraddoldeb	27
	3. Rhestr termau	33

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Adroddiad Blynyddol 2012-13

### Rhagair:

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) y Cyngor 2012-16; mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013. Mae'r adroddiad yn nodi:

- sut y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau penodol o dan Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011;
- sut y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010; a'r
- cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion a chamau gweithredu cydraddoldeb a nodir yn y cynllun.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn fe wnaeth y Cyngor hefyd gymryd rhan mewn prosiect peilot gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Roedd hwn yn Adolygiad gan Gymheiriaid yn erbyn Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r asesiad cyffredinol o'r Adolygiad gan Gymheiriaid CLILC hefyd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Rwyf yn falch ein bod llwyddo i gyflawni nifer o feysydd y CCS, diolch i ymrwymiad a gwaith caled ar y cyd gan holl adrannau'r Cyngor. Mae'r gwaith hwn, ynghyd â llwyddo i sicrhau ein Gwobr Gwella Cydraddoldeb fewnol yn cynnig sylfaen gadarn i symud ymlaen gyda'n hamcanion cydraddoldeb dros y pedair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'n iawn cydnabod hefyd bod meysydd y gellid parhau i'w gwella os ydym am fynd i'r afael o ddifrif â'r anghydraddoldebau a nodir ac a wynebier gan nifer o bobl ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw sicrhau bod Wrecsam a'i phobl yn derbyn cefnogaeth i wireddu eu potensial ac i ffynnu. Trwy'r gwaith rydym yn ei wneud i ddileu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ac i feithrin perthynas dda â'r gymuned rydym yn ceisio mynd ati'n rhagweithiol i droi'r weledigaeth honno yn realiti i bawb yn y Fwrdeistref Sirol.



Y Cyngorydd Hugh Jones, YH, Aelod Arweiniol Cymunedau, Partneriaethau a Chydweithredu.

## **1. Crynodeb Gweithredol:**

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gyflawni anghenion Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sef:

- Dileu gwahaniaethau anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- Meithrin perthynas dda.

Hefyd mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym y prosesau cywir mewn lle i hyrwyddo cydraddoldeb a monitro effaith ein gwaith ar gydraddoldeb.

Er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwn fe wnaethom ymgynghori â'r cyhoedd i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Cynllun yn nodi'r nodau ac amcanion cydraddoldeb yr ydym wedi'u dynodi fel rhai sydd yn bwysig iawn i bobl Wrecsam. Rydym wedi dynodi pobl allweddol yn y Cyngor yn cynnwys yr Aelod Arweiniol Etholedig dros Gydraddoldeb, Penaethiad Adrannau a swyddogion Gwella Cydraddoldeb, i'n cynorthwyo i arwain y gwaith o weithredu'r Cynllun ac i sicrhau ein bod yn datblygu diwylliant o wella parhaus. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod 2012/13 wrth weithredu'r Cynllun a'r prosesau y gwnaethom eu rhoi ar waith i'n cynorthwyo.

Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd da. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- Rhoi Cynllun Gwobrwyo Cydraddoldeb mewnol ar waith yn llwyddiannus;
- Cymryd rhan yn Adolygiad peilot y Cymheiriaid er Gwella Cydraddoldeb o'n gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Nodi a gweithredu camau allweddol i'n cynorthwyo i gyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol;
- Cymryd camau i wella'r modd rydym yn ymgysylltu ag unigolion a chymunedau sydd â nodweddion gwarchoddedig;
- Gwella'r modd rydym yn monitro ac yn asesu effaith bosibl ein polisiau a'n gwasanaethau ar bobl fel y gallwn leihau unrhyw effeithiau negyddol;
- Cymryd camau i sicrhau bod ein polisiau a'n harferion cyflogaeth yn deg ac yn cefnogi canlyniad cyfartal i bob aelod staff;
- Darparu hyfforddiant sydd wedi'i dargedu i staff ar faterion yn gysylltiedig â chydraddoldeb; a
- Cymryd camau i sicrhau ein bod yn ystyried materion yn gysylltiedig â chydraddoldeb pan fyddwn yn comisiynu gwasanaethau trwy sefydliadau eraill.

Er y gwnaethpwyd cynnydd da, mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Yn ogystal â'r amcanion a nodwyd eisoes yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn 2013-14 byddwn hefyd yn symud ymlaen â'r materion canlynol yn 2014/15:

- Gwella'r defnydd a wneir o'r wybodaeth a gafwyd trwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i lywio datblygiadau yn y gwasanaethau ar draws adrannau;
- Gwella'r data monitro cydraddoldeb a monitro cydraddoldeb yn y gweithlu;
- Sicrhau bod hyfforddiant yn gysylltiedig â chydraddoldeb yn cael ei wreiddio ym mhob maes gwasanaeth yn fwy effeithiol;
- Gwella ein prosesau cydraddoldeb drwy symud ymlaen ag argymhellion Adolygiad y Cymheiriaid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a
- Gwella ein hymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion yn gysylltiedig â chydraddoldeb.

Mae mwy o fanylion yn y prif adroddiad. Os hoffech wneud sylw, cysylltwch â ni: Rhif ffôn: 01978 298736, E-bost: [onewrexham@wrexham.gov.uk](mailto:onewrexham@wrexham.gov.uk)

## **2. Cyflwyniad a chefnidir:**

Diffinnir cydraddoldeb fel a ganlyn:

'Mae cymdeithas gyfartal yn hyrwyddo ac yn amddiffyn rhyddid cyfartal, gwirioneddol a chyfle i fyw yn y modd y byddai pobl yn ei werthfawrogi a'i ddewis, er mwyn i bawb gael ffynnu. Mae cymdeithas gyfartal yn cydnabod gwahanol anghenion, sefyllfaoedd a nodau pobl, ac yn dileu'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar yr hyn y gall pobl ei wneud a'i fod.'

[CLILC, Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymru, 2012]

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd nifer o wahanol gyfreithiau gwahanol i greu un fframwaith cyfreithiol er mwyn ymdrin â gwahaniaethu ac anfantais yn fwy effeithiol. Mae'r Ddeddf yn nodi grwpiau o bobl yr ystyrir bod ganddynt 'nodweddion gwarchoddedig':

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a Phartneriaethau Sifil

Ymdrinnir â'r Gymraeg gan Ddeddf Iaith Gymraeg 1998 ac mae gan y Cyngor Gynllun Iaith ar wahân i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

[http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council\\_w/documents/welsh\\_language\\_scheme.htm](http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/documents/welsh_language_scheme.htm)

Ym mis Ebrill 2011 gosodwyd 'dyletswydd gyffredinol' statudol ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr i weithredu'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a phobl nad ydynt; a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt.

Hefyd, mae gan Gyngorau Cymru ddyletswyddau cyfreithiol penodol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011, sef:

- Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb bob 4 blynedd;
- Gweithgareddau i ymgysylltu a chynnwys grwpiau sydd â 'nodweddion gwarchoddedig';
- Sicrhau bod yr holl ddeunydd a gyhoeddir yn hygyrch;
- Asesu effaith polisiau a chynlluniau perthnasol;
- Hyfforddiant a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth;
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf Cydraddoldeb ar draws y sefydliad;
- Ymdrin â gwahaniaethau cyflog annheg;
- Defnyddio arferion caffael i gyfrannu at gyflawni amcanion cydraddoldeb; ac
- Adolygu'r cynnydd a wnaed i weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.

## **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Wrecsam (CCS) 2012-16:**

Lluniodd y Cyngor ei CCS yn 2011 ar ôl ymgysylltu â grwpiau lleol a rhanbarthol a sefydliadau a oedd yn cynrychioli pobl a chanddynt amrediad eang o nodweddion gwarchoddedig. Fe wnaeth hyn ein galluogi i nodi amcanion cydraddoldeb lleol. Fe wnaethom hefyd weithio gyda'r cyrff cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru i nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol.

Ceir manylion am yr amcanion cydraddoldeb lleol a rhanbarthol a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd er mwyn pennu'r amcanion hyn yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol [http://www.wrexham.gov.uk/top\\_navigation/equality\\_w.htm](http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality_w.htm)

Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Wrecsam 2012-16 ei gefnogi gan y cyn-Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chraffu ar Bolisi ar 7 Mawrth 2012 a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol ar 3 Ebrill 2012.

Ochr yn ochr â'r CCS, cefnogir gwaith y Cyngor ar gydraddoldeb gan y Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru 2011-14, y Polisi Cydraddoldeb, y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Strategaeth Gofal Cwsmeriaid.

### **Arweinwyr, hyrwyddwyr a rhwydweithiau cydraddoldeb**

Mae'r Aelod Arweiniol Cymunedau, Partneriaethau a Chydweithredu yn ymgymryd â rôl arweiniol wrth hyrwyddo a goruchwyllo gwaith y Cyngor ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth. Darperir cymorth strategol gan Bennaeth yr Adran Lles Cymunedol a Datblygu. Mae'r Pwyllgor Craffu ar Gwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau yn derbyn diweddariadau ac adroddiadau monitro rheolaidd.

Mae'r tîm Amrywiaeth Cymunedol yn darparu cymorth penodedig i brif-ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y Cyngor yn cynnwys rheolaeth weithredol y Grŵp Gwella Cydraddoldeb. Hwn yw grŵp cydraddoldeb corfforaethol y Cyngor ac mae cynrychiolwyr cydraddoldeb o bob adran yn aelodau ohono. Cadeirydd a hyrwyddwr y Grŵp yw Pennaeth yr Adran Lles Cymunedol a Datblygu.

### **Prosesau cyflenwi a monitro mewnol**

Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei gyflenwi trwy Gynlluniau Gwasanaeth yr adrannau. Golyga hyn fod modd integreiddio'r gwaith o fonitro cydraddoldeb â system rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor.

Fel y nodir yn Adolygiad y Cymheiriaid CLILC, mae angen mwy o waith er mwyn gwreiddio'r dull hwn o weithredu ac i nodi canlyniadau mesuradwy i bobl yn hytrach nag allbynnau.

### **3. Cynnydd yn erbyn dyletswyddau penodol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011**

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflenwi Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (CCS) wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**, a nodir y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob un o'r camau gweithredu.

Ar y cyfan, mae'r adrannau o'r farn bod y CCS ar y trywydd cywir. Fodd bynnag, mae monitro effeithiol o'r CCS wedi bod yn gyfyngedig oherwydd rhoddwyd mwy o bwyslais ar brosesau ac allbynnau nag ar ganlyniadau. Yn 2014/15 byddir yn ymdrin â hyn mewn sawl ffordd:

- Mae adborth o'r Pwyllgor Craffu ar Gwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau yn gofyn yn benodol am roi pwyslais ar ganlyniadau o fis Ebrill 2014;
- Bydd canlyniadau cydraddoldeb yn cael eu nodi'n benodol yn y Cynlluniau Gwasanaeth adrannol a'u cysylltu â Chynllun y Cyngor a'r Cynllun Integredig Unigol;
- Cymorth, monitro a gwerthuso parhaus trwy'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb; a
- Gwell ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion yn gysylltiedig â chydraddoldeb yn cynnwys digwyddiad 'Fe Ddywedoch Chi, Fe Wnaethom Ni' a gysylltir â'r cylch cynllunio gwasanaeth.

Disgrifir y cynnydd a wnaed mewn perthynas â monitro cydraddoldeb ymhlith y Gweithwyr yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

## **Gwobr Gwella Cydraddoldeb Cyngor Wrecsam**

Yn 2011 cyflwynodd y Cyngor ei Gynllun Gwobr Gwella Cydraddoldeb ei hun, yn seiliedig ar y Fframwaith Gwella Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru. Nod y cynllun oedd sicrhau bod pob adran yn cyrraedd safon sylfaenol a gytunwyd er mwyn cyrraedd lefelau Efydd, Arian ac Aur erbyn mis Mawrth 2013 ac i hyrwyddo cysondeb yn y modd yr ymdrinnir â chydraddoldeb ar draws y sefydliad.

Gofynnwyd i adrannau gyflwyno tystiolaeth yn erbyn meini prawf penodol mewn perthynas â'r safonau efydd, arian ac aur.

- Efydd – lefel Sylfaen – i gyrraedd y lefel hwn bydd yn rhaid i'r adran ddangos (dros ddeg o feini prawf) ar draws ei swyddogaethau i gyd, ei bod wedi ymrwymo i gydraddoldeb a'i bod wedi adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer ei gwaith ym maes cydraddoldeb.
- Arian – lefel Datblygu – i gyrraedd y lefel hwn bydd yn rhaid i'r adran ddangos (dros bump o feini prawf ychwanegol) ar draws ei holl swyddogaethau, ei bod yn gwneud cynnydd ac yn datblygu systemau cadarn i reoli cydraddoldeb a gwella canlyniadau yn gysylltiedig â chydraddoldeb i staff a defnyddwyr gwasanaeth.
- Aur – y lefel uchaf – i gyrraedd y lefel hwn bydd yn rhaid i'r adran ddangos (dros bump o feini prawf ychwanegol terfynol) ac ar draws ei holl swyddogaethau, ei bod wedi ymrwymo i gydraddoldeb, bod ganddi systemau cadarn i reoli cydraddoldeb, gwella canlyniadau yn gysylltiedig â chydraddoldeb i staff a chwsmeriaid a'i bod yn llwyddo i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn gysylltiedig â chydraddoldeb ac yn hyrwyddo cydraddoldeb.

Gweithiodd yr holl adrannau yn galed i gyrraedd y safon aur. Yn ogystal, nodwyd meysydd o arfer da yn yr adrannau a chawsant eu rhannu ar draws adrannau trwy'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb.

Mae enghreifftiau o arfer da yn cynnwys:

- Mae gan adrannau swyddog arweiniol dynodedig ar gyfer gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Mae swyddogion a enwebwyd yn cydlynu'r gwaith adrannol;
- Mae rhanddeiliaid cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yng ngwaith cynllunio blynyddol y gwasanaeth;
- Mae timau comisiynu Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc yn cyfarfod darpar gontractwyr i egluro'r disgwyliadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn cynnwys anghenion cydraddoldeb;
- Mae adran y Gwasanaethau Amgylcheddol yn cyhoeddi cylchlythyr cydraddoldeb i'r staff;
- Mae'r adran Gwasanaethau Gofal Corfforaethol a Chwsmeriaid wedi datblygu ffurflenni monitro cydraddoldeb ymhlith staff i'w defnyddio ar draws y cyngor;
- Mae'r adran Lles Cymunedol a Datblygu yn arwain ar brosiect gwrth-gasineb;
- Mae'r adrannau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant ( h.y. gweithwyr y mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol yn gyfrifol amdanynt) wedi
  - cyfarfod darpar gontractwyr i egluro'r disgwyliadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn cynnwys anghenion cydraddoldeb;
  - adolygu eu modiwlau hyfforddiant i gynnwys materion yn gysylltiedig â chydaddoldeb;
  - symud ymlaen â'r rhaglen Urddas mewn Gofal trwy'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Urddas mewn Gofal mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint;
  - cynnal digwyddiad ymgysylltu blynyddol i bobl ifanc sydd ag anabledd, a'u rhieni a gofalwyr;

Mae'r wobr hon wedi bod yn llwyddiannus wrth gynorthwyo adrannau i roi'r prosesau priodol mewn lle er mwyn symud ymlaen â'r CCS. Yn y dyfodol, bydd adrannau yn gweithredu mewn modd a fydd yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

## **Adolygiad gan Gymheiriaid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**

Gweithiodd y Cyngor gyda CLILC yn 2012 ar asesiad peilot Adolygiad Gwella Cydraddoldeb yn seiliedig ar ein gwaith ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Fe wnaeth yr asesiad dynnu sylw at y meysydd allweddol lle ceir arfer da a meysydd y dylid eu gwella.

Roedd enghreifftiau o arfer da yn cynnwys:

- Cefnogaeth gref gan wleidyddion ac uwch reolwyr i gydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a cheiswyr lloches;
- Monitro troseddau casineb ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig;
- Hyfforddiant ym maes troseddau casineb;
- Y Grŵp Gwella Cydraddoldeb a arweinir gan swyddogion;
- Yr adran cydraddoldeb yn nhempled yr adroddiadau corfforaethol; a
- Hyfforddiant ym maes cydraddoldeb.

Fe wnaeth yr adroddiad hefyd dynnu sylw at feysydd allweddol i'w datblygu. Derbyniwyd y rhain a chawsant eu hymgorffori yng Nghynllun Gweithredu'r CCS ar gyfer 2013/14 a 2014/15.

<b><u>Argymhelliad Adolygiad gan Gymheiriad CLILC</u></b>	<b><u>Cynnydd</u></b>	<b><u>Camau gweithredu pellach</u></b>
<b>Prif-ffrydio yn gysylltiedig â chynllunio busnes</b>		



<ul style="list-style-type: none"> <li>•Hyrwyddo cydraddoldeb yn nhermau'r canlyniadau sydd i'w cyflawni;</li> <li>•Gwreiddio amcanion cydraddoldeb lleol a rhanbarthol yn y broses cynllunio busnes;</li> <li>•Cysylltu amcanion lleol a rhanbarthol i gael y cyfleoedd gorau posibl ar gyfer cydweithio ar draws ffiniau daearyddol a sefydliadol;</li> <li>•Dylid cysylltu cynllunio cydraddoldeb â threfniadau partneriaeth lleol a chynllunio integredig.</li> </ul>	<p>Cytunwyd ar ddull gweithredu diwygiedig mewn perthynas â chydaddoldeb a chydlyniant cymunedol a datblygwyd cynllun gweithredu sy'n ymgorffori amcanion lleol a rhanbarthol ac sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio busnes y cyngor, cynlluniau lleol a chynlluniau integredig.</p>	<p>Nodi camau gweithredu cydraddoldeb pellach, amserlenni a chanlyniadau yng nghynlluniau gwasanaeth yr adrannau perthnasol erbyn mis Mawrth 2014 i lywio Cynllun Gweithredu Strategol y CCS 2014-15.</p>
<p><b>Asesiadau effaith ar gydraddoldeb (AEG):</b></p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>•Datblygu dull gweithredu mwy strategol wrth gasglu a defnyddio data yn gysylltiedig â chydaddoldeb;</li> <li>•Adolygu a diwygio'r broses AEG</li> <li>•Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd a wneir o AEG trwy hyfforddiant perthnasol;</li> <li>•Cryfhau'r ymgysylltu â'r sector gwirfoddol ar AEG sy'n weithredol.</li> </ul>	<p>Datblygwyd a rhoddwyd dull gweithredu diwygiedig ar waith, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dull sgrinio;</li> <li>• Dogfennau data gwybodaeth Dyma Wrecsam;</li> <li>• Ailffurfio'r grŵp Gwasanaethau AEG gyda chynrychiolwyr o'r sectorau gwirfoddol a chymunedol.</li> <li>• modiwl e-ddysgu i gefnogi'r broses AEG.</li> </ul>	<p>Ffurflen AEG ar-lein (Rhagfyr 2013) Profion sicrhau ansawdd ddwywaith y flwyddyn i nodi a hyrwyddo arfer da ar draws y cyngor.</p>
<p><b>Grŵp Gwella Cydraddoldeb:</b></p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>•Ailddiffinio cylch gwaith y Grŵp Gwella Cydraddoldeb (GGC) i symud y rhaglen yn ei blaen drwy'r broses cynllunio busnes;</li> <li>•Annog trafodaeth ar faterion cydraddoldeb yng nghyfarfodydd tîm yr holl feysydd gwasanaeth.</li> </ul>	<p>Aelodau'r GGC yn gweithio gydag adrannau i nodi canlyniadau cydraddoldeb o fewn prosesau cynllunio gwasanaethau'r adrannau.</p>	<p>Defnyddio'r broses sicrhau ansawdd i roi adborth cadarnhaol i adrannau ac, yn ôl yr angen, awgrymiadau am welliannau</p>
<p><b>Prosesau mewnol:</b></p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>•Gwella'r gwaith o fonitro'r gweithlu ar draws nodweddion gwarchoddedig;</li> <li>•Adolygu a gwella polisïau cyflogaeth i ymdrin â thangynrychiolaeth;</li> <li>•Codi ymwybyddiaeth o'r anghenion o dan y Ddeddf mewn perthynas â monitro</li> </ul>	<p>Gwaith Monitro Cydraddoldeb Cyflogaeth wedi'i wneud yn ystod 2011-12. Nifer bychan o ymatebion a dderbyniwyd. Mae anghenion cydraddoldeb wedi'u cynnwys fel gofyniad sylfaenol yn yr holiadur</p>	<p>Mae Strategaeth Gyfathrebu yn cael ei datblygu i alluogi arolwg Monitro Cyflogaeth ym mis Ionawr 2014. Bydd arolwg Monitro Cydraddoldeb Cyflogaeth ar wahân ar gyfer ysgolion hefyd yn cael ei</p>

caffael a chontractio.	caffael rhag-gymhwyso, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae monitro cydraddoldeb yn ofyniad sylfaenol o fewn cytundebau'r 3 <sup>ydd</sup> sector. Mae anghenion cydraddoldeb a gytunwyd yn rhanbarthol wedi'u cynnwys ym mhob contract gofal cartref.	gynnal ym mis Ionawr 2014. Bydd canfyddiadau'r ddau arolwg yn llywio polisïau cyflogaeth er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth. Mae anghenion monitro cyflogaeth wedi'u cynnwys ym mhob contract newydd. Canllawiau monitro cydraddoldeb i'w datblygu mewn perthynas â chontractau.
<b>Hyfforddiant:</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu hyfforddiant ym maes cydraddoldeb i Gadeiryddion Craffu;</li> <li>• Datblygu dull gweithredu strategol wrth ddarparu hyfforddiant ym maes cydraddoldeb sy'n cwrdd ag anghenion rolau penodol ar draws y sefydliad.</li> </ul>	Nodwyd bod hyfforddiant CLILC ar gael am ddim i Gadeiryddion Craffu. Nodwyd bod hyfforddiant CLILC ar gael am ddim i'r tîm cyfreithiol.	<p>Dyddiadau i'w cadarnhau</p> <p>Dull gweithredu diwygiedig i gwrdd ag anghenion hyfforddiant staff sydd wedi'u lleoli yn y gymuned e.e. gweithwyr strydlyn a gweithwyr gofal cartref.</p> <p>Bydd modiwlau e-ddysgu yn cael eu datblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deddf Cydraddoldeb 2012;</li> <li>• Cydraddoldeb yn y gweithle;</li> <li>• Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb;</li> <li>• Troseddau Casineb; a</li> <li>• Chydlyniant Cymunedol.</li> </ul>
<b>Ymgynghori ac ymgysylltu:</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen ystyried dull gweithredu 'Fe ddywedoch chi, Fe wnaethom ni' wrth ymateb i adborth gan bartneriaid y sector gwirfoddol a'r cyhoedd.</li> </ul>	Datblygu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu gorfforaethol, adroddiad blynyddol CBSW 'Rydym yn gwrando'	Adolygu cylch gwaith Fforwm Amrywiaeth Cymunedol Wrecsam a arweinir gan y cyngor

#### **4. Cynnydd yn erbyn dyletswyddau cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010**

Symudwyd ymlaen ag amrediad o weithgareddau mewn perthynas â phob un o'r dyletswyddau cyffredinol yn ystod 2012-13. Roedd y rhain yn cynnwys:

## **Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, ac erledigaeth:**

- Adroddwyd am 50 o droseddau casineb i'r Cyngor yn ystod 2012-13, roedd y mwyafrif yn droseddau hiliol;
- Darparwyd hyfforddiant ar droseddau casineb i Weithwyr Ieuencid, Gweithwyr Cymdeithasol ysgolion, tîm cymorth i fyfyrwyr Prifysgol Glyndŵr;
- Bellach mae 41 o Ganolfannau Adrodd Trydydd Parti ar draws y Fwrdeistref Sirol;
- Fe wnaeth gweithwyr Strydlun gael gwared â 13 achos o graffiti hiliol ar y diwrnod yr adroddwyd amdanynt;
- Mae data Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol bellach yn cynnwys gwybodaeth am nifer yr achosion yn ymwneud â Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT), ac anabledd a atgyfeirir at Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth Wreccsam gan awgrymu bod y ffigurau ar gyfer Wreccsam yn cydymffurfio â'r ffigurau o ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru, y rhan fwyaf o luoedd tebyg a data cenedlaethol. Mae offer gwella diogelwch ar gael er mwyn galluogi dioddefwyr i aros yn eu cartrefi eu hunain;
- Cafodd y rhaglen i bobl ifanc "Butterflies: yr Hawl i fod yn ddiogel" ei hintegreiddio'n llwyddiannus i gyllid prif ffrwd. Cafodd "Crucial Crew" y Prosiect Seren (Cymorth i Fenywod) a chynhyrchiad Cwmni Theatr Cat's Paw am berthnasau iach eu cyflwyno i ysgolion uwchradd;
- Cydnabod Diwrnod y Rhuban Gwyn i hyrwyddo ymwybyddiaeth am drais domestig a thrais rhywiol. Cynhaliwyd prosiect i bobl ifanc gyda myfyrwyr Coleg Cambria er mwyn codi ymwybyddiaeth am Drais Domestig;
- Datblygu Polisi ar gyfer Cyfnod Pontio Ailbennu Rhywedd staff. (Mae hwn yn ymwneud â'r broses gymdeithasol, seicolegol, emosiynol ac economaidd y bydd unigolyn trawsrywiol yn ei wynebu wrth symud o'r rhywedd a bennwyd iddo/iddi i'r rhywedd a ddewiswyd neu a gafwyd);
- Gwasanaethau ieuencid - yn cynnwys gwaith i fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol megis ymchwilio i wahanol ffydd a chredoau, ethnigrwydd, mudo a herio hiliaeth a rhagfarn trwy chwaraeon;
- Trwy waith y rhaglen Ysgolion Iach ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol, llwyddodd 22 o ysgolion i ennill Gwobr Ansawdd Genedlaethol Iechyd Meddwl ac Emosiynol;
- Mae Gwasanaethau Seicoleg Addysgol yr ysgolion yn cydlynu Grŵp Diddordeb Arbennig Gwrth-fwlio bob tymor.

## **Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a phobl nad ydynt**

- Mae 2 aelod staff yn y Tîm Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid wedi'u hyfforddi yn Iaith Arwyddion Prydain;
- Mae 2 aelod staff yn y Ganolfan Gyswllt Corfforaethol yn siaradwyr Cymraeg rhugl a gall 3 aelod arall gyfathrebu yn y Gymraeg;
- Mae'r cyfleusterau hunan-wasanaeth yng Nghyswllt Wreccsam yn cynnwys gorsaf waith ddynodedig gyda bysellfwrdd gwelededd amlwg a llygoden ergonomig;
- Mae gan y rhan fwyaf o'r bysiau cyhoeddus a ddefnyddir ar deithiau strategol loriau isel.
- Mae tua 30,000 o gardiau teithio rhatach yn cael eu defnyddio;
- Mae'r cynllun parcio Bathodyn Glas yn cael ei blismona'n rheolaidd;
- Mae gwybodaeth i denantiaid ar gael mewn ieithoedd a ffurfiau eraill ar gais;
- Mae Canolfan Alw y Gwasanaethau Tai wedi penodi 2 siaradwr Cymraeg;

- Neilltuwyd ystafell fwydo Mam a'i Baban arbennig yn swyddfeydd yr Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd;
- Mae gan wefan y Cyngor:
  - Gyfleuster sain sy'n defnyddio Dixerit Plus;
  - Offeryn chwyddo sy'n gallu chwyddo'r sgrin arddangos hyd at 32 gwaith ei faint arferol;
  - Offeryn cyferbynnedd er mwyn rhoi arlliw ar y sgrin;
- Cyflwynwyd Polisi Cam-drin Domestig yn y Gweithle ym mis Ionawr 2012. Mae amserlen hyfforddiant i reolwyr er mwyn gweithredu'r polisi yn ei lle; a
- Rhoddwyd cymorth ychwanegol i 28 o blant sydd â nodweddion gwarchoddedig (anabledd yn bennaf) o 28 teulu trwy'r Prosiect Cynhwysiant Gwaith Chwarae, gan eu galluogi i gael mynediad at brosiectau gwaith chwarae cymunedol, dan arweiniad staff, gyda phlant eraill.

### **Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a phobl nad ydynt.**

- Datblygu pecyn adnoddau i ysgolion: Codi ymwybyddiaeth am geiswyr lloches;
- Datblygu pecyn adnoddau i ysgolion: Mynd i'r Afael ag Ystrydebau Mwslemaidd;
- Fe wnaeth y Grŵp Monitro Tensiynau Cymunedol nodi ac ymateb i 44 achos o densiwn yn y gymuned;
- Dathlu Mis Cenedlaethol Hanes y Sipsiwn, Roma, Teithwyr mewn partneriaeth â'r gymuned Sipsi a Theithwyr leol ac asiantaethau sy'n bartneriaid;
- Dathlu Wythnos Genedlaethol Ffoaduriaid mewn partneriaeth gyda ffoaduriaid lleol ac asiantaethau sy'n bartneriaid.
- Dathlu Wythnos Genedlaethol Rhyng-ffydd mewn partneriaeth â Tangnefedd;
- Prosiect Cwmni Theatr Cat's Paw yn yr Ysgolion Uwchradd Lleol "Break the Silence on Sexual Violence";
- 'Willow', grŵp cymorth i rieni sy'n dioddef cam-drin gan blant/pobl ifanc; a
- 'Wrespect', prosiect dan arweiniad pobl ifanc trwy Wasanaeth Ieuencid Wreccsam.

## **5. Ymgysylltu**

Mae adrannau ar draws y Cyngor yn cofnodi ac yn monitro proffil y cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau. Nid yw'r broses ar gyfer gwneud y gwaith hwn yn gyson ar draws y Cyngor ac o ganlyniad nid oes digon o ddata i alluogi dadansoddiad cadarn, ond mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn.

Mae ffynonellau data eraill a ddefnyddir gan y Cyngor yn cynnwys [www.neighbourhood.statistics.gov.uk](http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, NOMIS, Infobase Cymru, Stats Cymru, gwaith ymchwil ac adroddiadau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio panel o bobl leol fel un dull o ymgynghori – Panel Ymgynghori Dinasyddion ar-lein Llais y Bobl. Caiff aelodaeth y panel a'r sylwadau a dderbynnir eu dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ym mhob adroddiad. Rydym yn adolygu'r Panel ac amrywiaeth yr aelodau'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli pobl a chymunedau Wreccsam yn well.

Mae nifer y bobl sy'n perthyn i rai cymunedau â nodweddion gwarchoddedig yn fychan iawn, ac felly mae'n anodd iawn gwneud dadansoddiad ystadegol. Mae'r Cyngor yn defnyddio gwaith ymchwil cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n

gysylltiedig â phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Caiff gwybodaeth ansoddol ei chasglu o'r grwpiau ffoecs ac arolygon ac wrth ymgysylltu â grwpiau lleol megis:

- Fforwm Aml-asiantaeth Sipsiwn a Theithwyr Wreccsam
- Grŵp Darllen ac Ysgrifennu Sipsiwn a Theithwyr Wreccsam
- Cymdeithas Ddiwylliannol Islamaidd Wreccsam
- BAWSO
- Canolfan Gymunedol Affricanaidd
- Y Gymdeithas Ffilipino
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Fforwm y Byddar Wreccsam
- Fforwm Pobl dros 50 oed Wreccsam
- Senedd yr Ifanc Wreccsam
- Cynghorau Ysgolion
- Grŵp cymunedol Portiwgeaidd
- Grŵp cymunedol Pwylaidd
- Grŵp trawsrywiol Unique
- Tangnefedd (Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd-ddwyrain Cymru)
- Partneriaeth Mudo Wreccsam
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru (cangen Wreccsam)
- Grŵp Cymorth Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Wreccsam
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wreccsam (AVOW) a'r sefydliadau sy'n aelodau

Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn defnyddio Rhwydwaith Polisi Rhithwir i adolygu polisiau newydd a pholisiau diwygiedig. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys staff o bob adran a meysydd busnes corfforaethol allweddol e.e. cydraddoldeb, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a chyllid. Yn ystod 2012-13 adolygwyd y polisiau canlynol:

- Lwfans Tarfu;
- Recriwtio a Dethol;
- Diswyddo ac Adleoli;
- Datganiad Polisi Tâl;
- Cydbwysedd Bywyd Gwaith a Gweithio Hyblyg;
- Polisi Amser o'r Gwaith; a'r
- Polisi Lwfans Adleoli.

Dyma enghreifftiau o'r gwelliannau i'n dull o gasglu data cydraddoldeb yn 2012-13

- Mae arolygon Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cynnwys monitro cydraddoldeb fel gofyniad sylfaenol;
- Mae gwasanaethau hamdden yn casglu proffil eu cwsmeriaid yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- Mae gwasanaethau llyfrgelloedd yn casglu proffil eu cwsmeriaid yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- Bellach caiff data am droseddau casineb eu dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig; a
- Mae'r data Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth a ddarperir gan Gweithredu Cydynol yn erbyn Cam-drin Domestig (CAADA) yn cynnwys Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, Pobl Lesbiaidd, Hoywon, Deurywiol a Thrawsrywiol, a data anabledd fel gofyniad sylfaenol.

Rydym wedi datblygu proses well er mwyn rhoi adborth i'n cwsmeriaid -  
“Rydym yn Gwrando” 2012/13 Deall ac Ymateb i Ddinasyddion

[http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/consultations/understanding\\_customers\\_12\\_13\\_w.pdf](http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/consultations/understanding_customers_12_13_w.pdf)

Mae data Cyfrifiad 2011 wedi gwella ein dealltwriaeth o amrywiaeth yn lleol ond mae angen mwy o waith er mwyn:

- datblygu dull gweithredu cyson wrth fonitro cydraddoldeb ar draws y Cyngor; a
- gwella ein defnydd o ddata monitro i osod targedau priodol.

## **6. Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol**

Mae adrannau yn defnyddio data gwasanaethau i ddeall proffil eu cwsmeriaid a'u darpar gwsmeriaid. Rydym yn cymharu'r data â data'r cyfrifiad i weld a yw grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu tangynrychioli neu eu gorgynrychioli mewn meysydd gwasanaeth penodol. Mae hyn yn galluogi adrannau i gytuno ar gamau gweithredu a gosod targedau a ddefnyddiwyd i lywio Amcanion Cydraddoldeb Lleol y Cyngor.

Mae'r dadansoddiad o gyfraddau boddhad a chwynion hefyd o gymorth i nodi meysydd lle ceir gwahaniaethu posibl a mynd i'r afael yn rhagweithiol â thensiynau yn y gymuned e.e.

- Mae arolygon Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cynnwys monitro cydraddoldeb;
- Mae dadansoddiad yr adrannau o gwynion gan gwsmeriaid yn nodi meysydd posibl o wahaniaethu y gellir ymdrin â hwy; a
- Caiff gwybodaeth am densiynau cymunedol posibl ei chasglu a'i hadolygu, ac ymdrinnir â hyn trwy'r grŵp Monitro Tensiynau Cymunedol aml-asiantaeth a gydlynir gan y Cyngor.

Caiff yr wybodaeth a gesglir yn yr Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ei defnyddio i lywio datblygiadau o fewn y gwasanaethau. Mae angen gwneud mwy o waith i rannu'r wybodaeth hon ar draws adrannau.

## **7. Gweithwyr Cyngor Wreccsam**

Mae amrywiaeth yn bwysig ac mae'r Cyngor yn dymuno cadw gweithlu sydd ag amrediad eang o sgiliau, cymwysterau a phrofiadau. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod ein holl bolisiâu ac arferion cyflogaeth yn trin ein gweithwyr yn deg, yn hyrwyddo canlyniadau cyfartal, yn dileu gwahaniaethu ac yn meithrin perthynas dda â'r gweithwyr. Fel awdurdod cyhoeddus, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gymryd camau i hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu ac i gasglu gwybodaeth am weithwyr ar sail eu hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaethau sifil. Mae'r term 'monitro cydraddoldeb' yn disgrifio'r broses a ddefnyddir i gasglu, storio a dadansoddi'r wybodaeth hon, a ddefnyddir i wella ein gwasanaethau, polisiâu a gweithdrefnau.

Mae'r data monitro cyflogaeth y mae'n ofynnol eu casglu yn ôl y ddyletswydd fonitro benodol i'w gweld yn yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb mewn Cyflogaeth 2011-12.

[http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/hr/equalities\\_data\\_report\\_w.pdf](http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/hr/equalities_data_report_w.pdf)

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y gwahanol nodweddion gwarchoddedig y gallwn adrodd amdanynt a pholisïau ac arferion eraill sydd wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r rhaglen gydraddoldeb yn y Cyngor. Mae'r data yn ymwneud ag unigolion a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor. Nid yw'r data yn cynnwys y rheini sy'n gweithio i ni ond sy'n cael eu cyflogi yn achlysurol, dros dro neu drwy asiantaethau. Caiff data monitro cydraddoldeb yn ymwneud â staff ysgolion eu cynnwys yn adroddiad blynyddol yr ysgol ei hun. Mae adran Adnoddau Dynol Cyngor Wrecsam yn casglu data am weithwyr yn y dulliau canlynol:

- Ffurflen monitro cydraddoldeb wrth lenwi ffurflen gais;
- Ffurflen monitro cydraddoldeb wrth Dderbyn Contract;
- Holiadur monitro Cydraddoldeb yn y Gweithlu a ddsberthir ymhlith y gweithlu;
- Holiadur monitro cydraddoldeb yn ystod cyfweiliadau ymadael; a
- Monitro cydraddoldeb mewn Hyfforddiant.

## **8. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)**

Mae'n bwysig fod y Cyngor yn deall effaith bosibl unrhyw newidiadau y bydd yn eu gwneud mewn perthynas â'i brif bolisïau, strategaethau, cynlluniau a gweithgareddau cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Er mwyn gwneud hyn, cwblhaodd yr adrannau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn erbyn pob un o'r nodweddion gwarchoddedig gan ddefnyddio Mynegai a System Asesu Cydraddoldeb ar-lein y Cyngor (EASI). Mae hyn wedi sicrhau bod penderfyniadau wedi'u gwneud ar sail risg/effaith a bod modd deall effaith gronol newidiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar grwpiau gwarchoddedig yn well.

Mae amcanion cydraddoldeb corfforaethol y Cyngor wedi'u gosod o fewn Cynlluniau Gwasanaeth adrannol fel y gellir eu monitro a'u gwerthuso'n fwy effeithiol ac er mwyn cefnogi'r gwaith o brif-ffrydio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yng ngwaith beunyddiol y sefydliad.

Yn ystod adolygiad o'r broses hon yn 2012-13, mynegwyd pryderon ynglŷn â nifer a thrylwyredd yr asesiadau. Roedd hyn yn adleisio canfyddiadau yr adolygiad gan gymheiriaid CLILC (gweler adran 3, tudalen 7) a argymhellodd y dylai adrannau ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau ac allbynnau.

O ganlyniad, datblygwyd proses AEG symlach er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl yn hytrach nag allbynnau systemau. [Manylion y broses, Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb: Chwarae Teg i Bawb?](#)

Mae templedi'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu bellach yn cynnwys adran ar gydraddoldeb a hawliau dynol i'w cwblhau gan awdur yr adroddiad ac mae'r adroddiadau eu hunain yn cynnwys cyswllt at y dogfennau AEG. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i Aelodau Etholedig y cydymffurfiwyd â'r dyletswyddau ac fe'u harweinir at yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb os ydynt yn dymuno ei ddarllen. Yn 2013/14 bydd y Grŵp Gwella Cydraddoldeb yn cynnal profion sicrhau ansawdd gyda'r nod o wella ansawdd AEG a rhannu arfer da.

Mae'r broses AEG yn gofyn am ddiweddariadau a diwygiadau rheolaidd er mwyn ymateb i'r newidiadau yn hinsawdd ariannol y sector cyhoeddus a'r angen i ail-lunio gwasanaethau cyhoeddus yn sgil hynny. Byddwn yn symud ymlaen â mesurau i wella'r system ymhellach er

mwyn ymateb i'r heriau hyn gan arwain at ddull gweithredu syml, cynaliadwy wrth ymdrin ag amcanion cydraddoldeb corfforaethol yn ystod 2013-14.

Cwblhawyd 72 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Polisi cwynion;
- Contractau Cefnogi Pobl;
- Cymorth sy'n cael ei anelu at ddinasyddion [Materion Corfforol, Synhwyraidd a Niwrolegol];
- Pecyn cymorth Cyfathrebu;
- Adolygiad o Ganolfannau Hamdden, Cymuned a Llyfrgelloedd;
- Opsiynau talu Tâl Gwasanaeth;
- Strategaeth Gomisiynu Pobl Hŷn;
- Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae;
- Polisi recriwtio diogel.

## **Cynigion Cyllideb 2012/13 a 2013/14 ac Asesiad o'u Heffaith ar Gydraddoldeb**

Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u cynnwys yn y broses o bennu cyllidebau er mwyn lleihau unrhyw effaith andwyol ar wasanaethau rheng-flaen, pobl fregus a phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Cynhelir asesiad sgrinio cydraddoldeb cychwynnol o holl gynigion y cyllidebau, yn ogystal ag asesiad PESTLE (goblygiadau Corfforol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol posibl). Yn yr achosion hynny lle nodir effaith negyddol bosibl ar gydraddoldeb, cynhelir Asesiadau llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG). Fel rhan o'r broses AEG gofynnwyd i Benaethiaid Adrannau nodi pa gamau y byddant yn eu cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effaith negyddol ar gydraddoldeb a allai godi wrth roi'r cynnig ar waith.

Oherwydd y gwaith sylweddol sy'n mynd rhagddo i ail-lunio gwasanaethau o ganlyniad i doriadau cyllidebol ar draws y sector cyhoeddus, mae'r Cyngor wedi ategu ei ymrwymiad i roi blaenoriaeth i bobl fregus. Felly, cafodd cyllideb 2013/14 ei rhoi ger bron ymgynghoriad cyhoeddus trwy gyfrwng arolygon ar-lein a chopi caled. Cafodd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y broses hon ei defnyddio i lywio cynigion y gyllideb a chynorthwyo'r Cyngor i wrando ar ein dinasyddion er mwyn targedu adnoddau yn fwy effeithiol.

Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar raddfa eang, ar-lein a thrwy grwpiau ffocws er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyllideb 2014/15.

Cwblhawyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer holl gynigion cyllideb 2014-15.

## **9. Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth**

Yn ystod 2012-13, fe wnaeth 193 aelod staff gymryd rhan yn yr Hyfforddiant Cydraddoldeb gorfodol i Uwch Reolwyr, Rheolwyr a Goruchwylwyr, sy'n anelu at roi dealltwriaeth glir i'r staff o ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a sut y maent yn berthnasol i'w meysydd gwasanaeth penodol. Roedd amcanion y cwrs fel a ganlyn:



- Cysyniadau o gydraddoldeb a thegwch;
- Proffil amrywiaeth Wrecsam – ymateb i boblogaeth sy'n newid;
- Deddf Hawliau Dynol 1998;
- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Cyflenwi Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru
  - Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
  - Monitro Cydraddoldeb
  - Ymgysylltu ac ymgynghori
  - Gwybodaeth hygrych
- Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol CBSW;
- Gwobr Gwella Cydraddoldeb CBSW;
- Rolau a chyfrifoldebau; ac
- Adnoddau, cymorth a chefnogaeth.

Yn ogystal â'r hyfforddiant hwn, mae amrywiaeth a chydraddoldeb hefyd wedi'u cynnwys yn:

- Hyfforddiant ymsefydlu corfforaethol pob gweithiwr newydd;
- Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) Lefel 5;
- Gweithdai ymsefydlu pob Aelod Etholedig newydd;
- Hyfforddiant codi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb blynyddol a gyflwynir i bob Aelod Etholedig o fewn y rhaglen Datblygu Aelodau flynyddol.

Mae'r Adrannau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant wedi diwygio eu cynllun hyfforddiant.

- Rhaid i bob rheolwr Gofal Cymdeithasol ddangos dealltwriaeth o faterion yn gysylltiedig â chydraddoldeb yn eu cymwysterau perthnasol;
- Gall staff gael mynediad at gwrs Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Urddas mewn Gofal;
- Datblygwyd gweithdy hanner diwrnod ar gyfer rheolwyr cofrestredig Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Urddas ar lefel Ymarferol / Rheoli Gwasanaethau';
- Diweddarwyd yr hyfforddiant Dementia, Diogelu ac Amddiffyn Oedolion i hyrwyddo Cydraddoldeb ac Urddas;
- Mae Cynllun Hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant ar gyfer 2012/13 yn cynnwys hyfforddiant ar faterion yn gysylltiedig â chydraddoldeb a hefyd digwyddiadau hyfforddiant eraill megis Diogelu Oedolion, cydraddoldeb croes-gyfeiriol.  
[www.wrexham.gov.uk/welsh/council\\_w/social\\_services/workforce\\_strategy/training.htm](http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/social_services/workforce_strategy/training.htm)
- Mae aelodau'r fforwm Pobl Hŷn wedi derbyn hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Urddas.

Mae hyfforddiant penodol hefyd wedi'i roi mewn perthynas â'r:

- Polisi Urddas yn y Gwaith i wella'r cymorth a roddir i staff;
- Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i wella dealltwriaeth o bwysigrwydd a pherthnasedd aseidiadau effaith;
- Archwiliad Hygrychedd Sylfaenol i wella dealltwriaeth o faterion yn gysylltiedig â hygrychedd;
- Hyfforddiant gwrth-droseddau casineb ar System Adrodd Trydydd Parti'r Cyngor er mwyn cynyddu nifer yr achosion a gaiff eu hadrodd a gwella'r cymorth i ddioddefwyr;
- Hyfforddiant monitro tensiynau yn y gymuned i roi mwy o gymorth cydlynol i gymunedau ac i ymdrin â thensiynau cyn iddynt waethygu;
- Hyfforddiant 'Dim Cronfeydd Cyhoeddus ar Gael' (NRPF) i staff yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a Thai

i wella dealltwriaeth o'r broses asesu NRPF ac arwain at ganlyniadau priodol i bobl na allant o bosibl gael cymorth gan gronfeydd cyhoeddus;

- Hyfforddiant cydraddoldeb i Benaethiaid, ysgolion a llywodraethwyr ysgolion;
- Mae Gweithwyr Cymdeithasol wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gwblhau asesiadau risg cam-drin domestig a thrais rhywiol a phroses y Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth;
- Hyfforddiant cydraddoldeb i Aelodau Etholedig.

Caiff perfformiad unigol aelodau staff ei fonitro trwy'r broses Adolygiad Perfformiad a Datblygiad Gyrfa (PCRD). Caiff amcanion yn ymwneud â'r gwaith eu gosod ar gyfer pob aelod staff a'u hadolygu bob chwe mis. Bellach, mae'n ofynnol i gynnwys amcanion cydraddoldeb yn y templed PCRD er mwyn symud ymlaen â'n hamcanion cydraddoldeb corfforaethol a nodi anghenion hyfforddiant. Mae angen mwy o waith monitro a dadansoddi i werthuso effeithiolrwydd y dull hwn o weithredu.

Er bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, rydym yn cydnabod bod angen mwy o waith i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r ddyletswyddau ar draws yr holl grwpiau staff. Byddwn yn ceisio gwreiddio hyfforddiant yn ymwneud â chydaddoldeb yn yr holl feysydd gwasanaeth yn fwy effeithiol. Byddwn yn codi lefelau hygyrchedd trwy ddatblygu amrediad o adnoddau y gellir eu defnyddio gan unigolion a thimau. Wrth fonitro faint o bobl sy'n defnyddio maes gwasanaeth byddwn yn cael gwell dealltwriaeth o gyfranogiad a lefelau o ddealltwriaeth a bydd modd cynnal asesiad o anghenion hyfforddiant pellach.

## 10. Caffael

Mae manylion ynglŷn â sut y gwreiddiwyd cydraddoldeb yn y broses gaffael wedi'u cynnwys yn y CCS. Yn fyr, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r model caffael cyhoeddus 'SQuID' a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr). Nod y dull hwn o weithredu yw cynnig nifer o fanteision yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy holi nifer o gwestiynau allweddol:

1. A gafwyd enghraifft o unrhyw un o'r canlynol yn eich sefydliad yn ystod y tair blynedd diwethaf – Dyfarniad o gamwahaniaethu anghyfreithlon gan Dribiwnlys Cyflogaeth, Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth neu unrhyw lys neu dribiwnlys arall (neu achosion cymharol)? Os atebwyd 'do', rhowch grynoded o'r casgliad neu ddyfarniad ac esboniwch pa gamau a gymerwyd gennych i atal sefyllfa debyg yn y dyfodol.
2. Os ydych yn defnyddio is-gontractiwr(wyr), pa brosesau sydd ar waith gennych i wirio a oes unrhyw un o'r sefyllfaoedd uchod yn berthnasol iddynt?
3. A yw eich staff sydd â chyfrifoldebau rheoli yn derbyn hyfforddiant ym maes cydraddoldeb?
4. A yw eich staff sydd â chyfrifoldebau cyflenwi gwasanaethau yn derbyn hyfforddiant ym maes cydraddoldeb?

Mae Cod Ymarfer a Phecyn Cymorth Caffael y Cyngor yn rhoi arweiniad ar fonitro cydraddoldeb a nodi cyfrifoldebau contract perthnasol. Yn ogystal, mae manylebau contractau a chontractau yn cynnwys cymalau cydraddoldeb penodol yn ymwneud ag amcanion cydraddoldeb a ddyletswyddau cyfreithiol y Cyngor, yn ôl yr hyn sy'n berthnasol ac yn gymesur i'r contract. Mae angen gwneud mwy o waith i werthuso effeithiolrwydd y dull hwn o weithredu.

Cynhaliodd yr Adrannau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant ddiwrnod hyfforddiant penodol i bartneriaid comisiynu a chaffael sy'n gysylltiedig â gofal. Roedd y digwyddiad hwn yn egluro wrth ddarparwyr gwasanaeth beth yn union yw disgwyliadau'r Cyngor o ran dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r Ddeddf Iaith Gymraeg.

Mae pob contract Gofal Cymdeithasol yn cynnwys y canlynol: 'Ni chaiff y Darparwr wahaniaethu'n anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas unrhyw gyfraith, deddfiad, gorchymyn, neu reoliad yn ymwneud â gwahaniaethu boed hynny ar sail hil, rhyw, crefydd, anabledd, tueddfryd rhywiol neu fel arall. Rhaid i'r Darparwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cedwir at y Cymal hwn gan holl weision, gweithwyr neu asiantwyr y Darparwr a phob cyflenwr ac is-gontractiwr a gyflogir wrth gyflawni'r Contract hwn'.

## **11. Casgliad a phrif gamau gweithredu ar gyfer 2013-14**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (CCS) ac wrth gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb penodol a chyffredinol.

Er y gwnaethpwyd cynnydd da, mae llawer o waith i'w gwblhau. Ynghyd â'r amcanion a nodir yn y CCS ar gyfer 2013-14 byddwn yn:

- Sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir trwy'r Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei rhannu yn y Grŵp Gwella Cydraddoldeb sy'n cael ei arwain gan swyddogion, i lywio datblygiadau yn y gwasanaethau ar draws yr adrannau;
- Parhau i wella'r data monitro cydraddoldeb yn y gweithlu;
- Safoni'r holiaduron monitro cydraddoldeb i'w defnyddio gan adrannau sy'n darparu gwasanaethau;
- Gwella'r dull o fonitro cydraddoldeb o ran y ddarpariaeth hyfforddiant corfforaethol;
- Gwreiddio hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ym mhob maes gwasanaeth yn fwy effeithiol;
- Gwella mynediad at yr hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy ddatblygu amrediad o adnoddau y gellir eu defnyddio gan unigolion a thimau;
- Gwella dulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion yn gysylltiedig â chydraddoldeb; a
- Symud ymlaen ag argymhellion yr Adolygiad gan Gymheiriaid, CLILC, gan gynnwys:
  - datblygu proses EAG symlach sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl yn hytrach nag allbynnau systemau;
  - gosod y gwaith o gyflawni amcanion cydraddoldeb corfforaethol y Cyngor yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol fel y gellir eu monitro a'u gwerthuso yn fwy effeithiol,
  - cefnogi prif-ffrydio aseidiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yng ngwaith beunyddiol y cyngor.

## **Diolch yn fawr am ddarllen Adroddiad Blynyddol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-13.**

Rydym yn croesawu eich sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer ein hadroddiad blynyddol. Cysylltwch â ni:

Rhif ffôn: 01978 298736

E-bost: [onewrexham@wrexham.gov.uk](mailto:onewrexham@wrexham.gov.uk)

## 12. Atodiadau

1. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol
2. Gwybodaeth am Gydraddoldeb
3. Rhestr termau

## **Cynllun gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Wrecsam 2012-16: Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd:**

Credwn ein bod wedi gwneud cynnydd da yn ôl pob un o'r amcanion cydraddoldeb. Mae'r tabl isod yn rhoi rhai enghreifftiau o'r modd y cyflawnwyd hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yr hunanasesiad hwn yn gyfyngedig gan nad yw'n cynnwys asesiad cadarn gan bobl Wrecsam. Byddwn yn ymdrin â hyn yn ystod 2014-15 trwy wella ein ymgysylltu â'r gymuned ar faterion yn gysylltiedig â chydraddoldeb, yn cynnwys cynnal digwyddiad 'Fe ddywedoch Chi, Fe wnaethom Ni'. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu canlyniadau cydraddoldeb mesuradwy y gellir eu cynnwys yn adroddiadau'r dyfodol.

	Amcan	Dangosyddion	Engbreiffiau o gynnydd hyd yma
1.	Lleihau anghydraddoldebau o ran lechyd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnydd yn nifer y bobl o grwpiau a thangynrychiolir yn dewis ffordd iach o fyw</li> <li>• Gofal pobl hŷn yn gwella gan sicrhau eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch</li> <li>• Bydd pobl trawsrywiol, lesbiaid, hoyw a deurywiol yn cael eu trin gydag urddas a pharch pan fyddant yn derbyn gofal</li> <li>• Gwell canlyniadau i bobl sydd â phroblemau lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Proses fapio yn cael ei chynnal i benderfynu ar y data a gesglir ar hyn o bryd er mwyn galluogi dadansoddi, monitro ac adrodd effeithiol;</li> <li>• Siarter Urddas mewn Gofal wedi'i mabwysiadu gan yr Adrannau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant;</li> <li>• Gwybodaeth am ailbennu rhywedd wedi'i hintegreiddio i hyfforddiant cydraddoldeb;</li> <li>• Dosbarthu 'deg awgrym da' i ddarparwyr gofal;</li> <li>• Camau i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd wedi'u hymgorffori yn rhaglen ddiwygiedig Cymunedau yn Gyntaf i'w gweithredu o fis Chwefror (ADE);</li> <li>• Wreccsam yn cynnal Gwasanaeth Fabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS). Tarddiad ethnig, cefndir diwylliannol, crefydd ac iaith plant yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n gadarnhaol yn y broses o wneud penderfyniadau (GCO a PPhI);</li> <li>• Mae'r Adran Dysgu Gydol Oes (ADGO) wedi: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Codi ymwybyddiaeth am yr Mesur Iechyd Meddwl – cysylltiadau â (GCO a PPhI)</li> <li>- Ymestyn sesiynau galw heibio y Gwasanaethau Seicoleg Addysgol a'r Gwasanaethau CAMHS yn rai wythnosol (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed)</li> <li>- Lleihau rhestrau aros CAMHS</li> <li>- Mwy o bobl yn cael mynediad at ymgynghorydd CAMHS</li> <li>- Cynllun i gynnig mwy o gymorth iechyd meddwl arbenigol i Feddygon Teulu</li> <li>- Adeiladu capasiti ysgolion mewn perthynas â disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynnwys gwella'r dull o osod targedau a threfniadau monitro</li> <li>- Estyn yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar sydd â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig yn gadarnhaol;</li> <li>- Pwyslais ar ymestyn hyfforddiant Elklan er mwyn cynorthwyo ysgolion i gwrdd ag anghenion ieithyddol y disgyblion.</li> <li>- Cydlynu gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol</li> <li>- Cefnogi pobl ifanc sydd ag ymddygiad hunan-niweidio trwy'r Prosiect 'Inspire'</li> </ul> </li> </ul>
2.	Lleihau canlyniadau anghyfartal ym maes Addysg i wneud y mwydion a'r mwydion posibl i wireddu pote unigolion	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd unrhyw fwch nghyrhaeddiad addysgol yn lleihau</li> <li>• Achosion o fwlio me ysgolion sy'n seilied</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dosbarthu model o'r Cynllun Addysg Sengl i'r ysgolion;</li> <li>• 'Deg awgrym da' i ysgolion wedi'u datblygu;</li> <li>• Camau i ymdrin ag anghyfartaleddau addysgol daearyddol wedi'u hymgorffori yn rhaglen ddiwygiedig Cymunedau yn Gyntaf i'w gweithredu o fis Chwefror 2013 (ADE);</li> <li>• Mae'r Adran Dysgu Gydol Oes (ADGO) wedi:</li> </ul>

		<p>hunaniaeth yn lleiha</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint i wella'r dulliau o fesur, monitro ac olrhain cynnydd disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd hyn yn galluogi mwy o ymyriadau sydd wedi'u targedu fel y bo'n briodol;</li> <li>- Mae gan bob ysgol athro dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal; - cysylltiadau â (GCO a PPhI)</li> <li>- Mae Cynlluniau Addysg Personol yn eu lle ar gyfer yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal; - cysylltiadau â (GCO a PPhI)</li> <li>- Mae cynllun gweithredu mewn lle ar gyfer cyrhaeddiad addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (2012); - cysylltiadau â (GCO a PPhI)</li> <li>- Darperir cymorth parhaus gyda'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol;</li> <li>- Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad addysgol bechgyn a merched yn eithaf tebyg i'r sefyllfa ar gyfer Cymru yn 2012 ac eithrio Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg lle mae'r bwch yn llawer is;</li> <li>- Yng Nghyfnod Allweddol 2 (L4+), mae'r bwch rhwng perfformiad merched a bechgyn mewn gwyddoniaeth yn llai na'r bwch yng Nghymru; ac eithrio ym mathemateg, mae'r holl ddangosyddion yn dangos rhywfaint o gynnydd ers 2010/11;</li> <li>- Mae'r mater ynghylch perfformiad bechgyn yn CA3 yn parhau. Mae'r gwahaniaethau rhwng perfformiad y ddau ryw yn uwch yng Nghymru ar gyfer pob dangosydd allweddol ac yn fwy na 2010/11, ac eithrio ym Mathemateg.</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Prosiect mentora cymheiriad gwrth-fwlio mewn un Ysgol Uwchradd (Ionawr i Mai 2013). Dysgu i lywio cwricwlwm ABCCh yr ysgol a datblygu adnoddau generig (LICD);</li> <li>• Yr Adran Dysgu Gydol Oes (ADGO): <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cesglir ffurflenni yn cofnodi digwyddiadau hiliol o'r ysgolion bob tymor;</li> <li>- Cynhaliwyd ymgyrch gwrth-fwlio;</li> <li>- Hyfforddiant ac adnoddau ar gael i'r ysgolion;</li> <li>- Gall pob ysgol uwchradd gael gwasanaeth cwnselydd ysgol;</li> <li>- Data PASS yn datgelu bod disgyblion yn teimlo'n saff ac yn ddiogel, a'u bod yn datblygu agweddau iach;</li> <li>- Mae Cynllun Gwasanaeth yr Adran Dysgu Gydol Oes 2013/14 yn cynnwys camau gweithredu i wella'r gwaith o fonitro a dadansoddi data ynghylch cyrhaeddiad addysgol;</li> <li>- Darparu cymorth sydd wedi'i dargedu a rhaglenni ymyrraeth i leihau tangyflawniad;</li> </ul> </li> </ul>
--	--	-----------------------------	--

			<ul style="list-style-type: none"> <li>- Sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn ddiogel rhag niwed.</li> <li>- Mae mwyafrif yr ysgolion yn cynnig cymorth gwaith ieuencid sydd wedi'i dargedu</li> </ul>
3.	Lleihau anghyfartaleddau o ran Cyflogaeth a Chyflog o fewn y gymuned	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anghyfartaleddau cyflogaeth yn lleihau</li> <li>• Unrhyw wahaniaethau cyflog rhwng gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn cael eu nodi ac ymdrinnir â hwy (yn y gymuned ac yn y Cyngor)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar amcan cyflog cyfartal lleol i CBSW (gweler yr adroddiad Cyflogaeth);</li> <li>• Adlewyrchir yr amcan hwn yn strategaeth Ffyniant Economaidd y Cyngor. Mae'r Cynlluniau Gwasanaeth ar gyfer 2013/14 yn cynnwys symud ymlaen â dulliau gweithredu aml-asiantaeth i wella cyflogadwyedd a rhoi hwb i ddyrchafiad o fewn swyddi er mwyn mynd i'r afael â thlodi 'mewn gwaith';</li> <li>• Camau i ymdrin ag anghyfartaleddau daearyddol ym maes cyflogaeth wedi'u hymgorffori yn rhaglen ddiwygiedig Cymunedau yn Gyntaf i'w gweithredu o fis Chwefror 2013 (ADE) yn cynnwys rhaglenni i gynyddu nifer y rhaglenni cyn-gyflogadwyedd;</li> </ul>
4.	Lleihau anghydraddoldebau o ran Diogelwch Personol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy o adrodd am droseddau casineb ac aflonyddu a chamau'n cael eu cymryd i leihau troseddau casineb ac aflonyddu</li> <li>• Mwy o adrodd am gam-drin domestig a chamau'n cael eu cymryd i leihau cam-drin domestig</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlwyd 41 Canolfan Adrodd Trydydd Parti yn cynnwys yr holl swyddfeydd tai ardal, gwasanaethau ieuencid a Chyswllt Wreccsam;</li> <li>• Darparwyd hyfforddiant ar droseddau casineb i Weithwyr Ieuencid, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac asiantaethau sy'n bartneriaid;</li> <li>• Cynhaliwyd cyfarfodydd aml-asiantaeth a chynhadledd achos i gefnogi dioddefwyr ac ymdrin â'r materion;</li> <li>• Caiff adroddiadau am droseddau casineb eu monitro ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig;</li> <li>• Datblygwyd polisi Cam-drin Domestig yn y Gweithle CBSW;</li> <li>• Cynhaliwyd cynhadledd codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â Masnachu Pobl;</li> <li>• Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wreccsam wedi datblygu Strategaeth Cam-drin Domestig a chynllun gweithredu. Caiff hwn ei fonitro'n rheolaidd a'i ddiweddarau gan y Bartneriaeth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol aml-asiantaeth ac mae'n bwydo i'r Fforwm Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.</li> <li>• Mae cam-drin domestig a phobl ifanc yn fater sy'n dod i'r amlwg, yn rhannol oherwydd newidiadau yn niffiniad y Swyddfa Gartref o gam-drin domestig (Mawrth 2013) i gynnwys pobl ifanc 16/17 oed;</li> <li>• Cam-drin domestig a phobl ifanc?</li> </ul>



5.	Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgysylltu parhaus â chymunedau lleiafrifol;</li> <li>• Datblygu'r Grŵp Ail-lunio Gwasanaethau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (LICD);</li> <li>• Mae Senedd yr Ifanc yn rhoi llwyfan i bobl ifanc ar draws sir Wrecsam i rannu eu sylwadau a'u barn am y materion sy'n effeithio arnynt. Mae cynrychiolwyr y Senedd rhwng 11 a 25 oed ac fe'u hetholir gan eu cymheiriaid i gynrychioli barn pobl ifanc o amrediad eang o grwpiau, yn cynnwys y sector gwirfoddol, prosiectau ieuenctid lleol a grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth.</li> <li>• Mae grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Senedd yr Ifanc wedi galluogi mwy o bobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig i ymgysylltu â Chyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn Wrecsam.</li> <li>• Bydd strategaeth ymgynghori ac ymgysylltu gorfforaethol yn cael ei datblygu yn ystod 2013/14 i wella'r modd rydym yn casglu gwybodaeth am ein dinasyddion a rhanddeiliaid eraill trwy waith ymchwil, ymgynghori ac ymgysylltu, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau yn y dull mwyaf effeithiol, effeithlon a chynhwysol</li> <li>• Mae'r cynnydd wrth symud ymlaen â Fforwm Amrywiaeth Wrecsam wedi bod yn araf oherwydd ailstrwythuro staffio o fewn y tîm Amrywiaeth Cymunedol. Byddwn yn symud ymlaen â'r gwaith hwn yn ystod 2014/15 (LICD);</li> <li>• Gwell gwybodaeth i ofalwyr a phobl ag anawsterau dysgu (GCO a PPhI)</li> <li>• Mae'r Grŵp Tasg Ymgysylltu yn atebol i'r Tîm Rheoli Anabledd Dysgu ac yn cydlynu ymgysylltu ar draws y Gwasanaethau Anabledd Dysgu (GCO a PPhI);</li> <li>• Mae Strategaeth Adfywio Cymunedol y Cyngor a rhaglen ddiwygiedig Cymunedau yn Gyntaf yn disgrifio camau gweithredu ymgysylltu trwy 'gynllun sy'n cynnwys y gymuned';</li> <li>• Mae Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid mewn lle a phenodwyd Cydlynedd Cyfranogiad Tenantiaid i sicrhau bod Cyfranogiad Tenantiaid yn cael ei ddatblygu, ei wella a'i wreiddio ar draws yr adran (ATDC);</li> <li>• Fel rhan o'r Arolwg Tenantiaid, gofynnwyd i'r tenantiaid sut y byddent yn dymuno i ni gysylltu â nhw (ATDC).</li> </ul>
6.	Lleihau anghydraddoldebau wrth gael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynediad i wybodaeth a chyfathrebu a phrofiad y cwsmer yn gwella</li> <li>• Mynediad corfforol i'r gwasanaethau, trafnidiaeth, yr amgylchedd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwynodd Gwobr Gwella Cydraddoldeb CBSW ofyniad i gynnal gwiriadau mynediad ac i weithio yn unol â Chanllawiau Print Clir yr RNIB;</li> <li>• Cynlluniau i hyrwyddo mynediad i wybodaeth wedi'u cynnwys yn Strategaeth Adfywio Cymunedol y Cyngor a rhaglen ddiwygiedig Cymunedau yn Gyntaf (ADE);</li> <li>• Mae staff allweddol Cyswllt Wrecsam wedi derbyn hyfforddiant yn laith Arwyddion Prydain (GCCh);</li> <li>• Derbyniodd Gweithiwr Preswyl Plant hyfforddiant pellach i gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth e.e. iaith arwyddion (GCO a PPhI)</li> <li>• Mae gan fwyafrif helaeth y bysus cyhoeddus a ddefnyddir ar deithiau strategol loriau isel</li> </ul>

		<p>adeiledig a lleoedd agored</p>	<p>(AA);</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae tua 30,000 o gardiau teithio rhatach yn cael eu defnyddio;</li> <li>• Darparwyd cludiant i blant ag anghenion arbennig a gwasanaeth hebrwng i'r ysgol (AA);</li> <li>• Mae'r cynllun parcio Bathodyn Glas yn cael ei blismona'n rheolaidd (AA);</li> <li>• Darparwyd llwybrau a gwybodaeth i wella mynediad i'r parciau gwledig e.e. darpariaeth i feiciau yn Dyfroedd Alun;</li> <li>• Gwybodaeth ar gael i denantiaid ac ymgeiswyr am dai mewn ieithoedd a ffurfiau eraill ar gais (ATDC);</li> <li>• Mae Canolfan Alw'r Gwasanaethau Tai wedi penodi 2 siaradwr Cymraeg (ATDC);</li> <li>• Ystafell fwydo Mam a'i Baban ar gael ym mhrif swyddfa'r Gwasanaethau Tai (ATDC);</li> <li>• Siop Wybodaeth yn darparu gwasanaethau 'siop un alwad' i bobl ifanc.</li> </ul>
--	--	-----------------------------------	---


**Gwybodaeth am gydraddoldeb:**

Rydym wedi defnyddio Cyfrifiad 2011 i'n cynorthwyo i gael gwell dealltwriaeth o'r boblogaeth leol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n cynorthwyo i ddeall pa mor dda y mae ein gwasanaethau yn ateb anghenion y boblogaeth gyfan.

Yn ystod 2013-14 byddwn yn datblygu'r wybodaeth hon ar gyfer yr holl nodweddion gwarchoddedig.

**Hil ac Ethnigrwydd:**

Mae **93.1%** o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Wyn: Cymreig / Prydeinig.<sup>1</sup> Golyga hyn fod dros **9,100** o gwsmeriaid, cydweithwyr, cymdogion a ffrindiau yn perthyn i'r grwpiau ethnig a nodir isod:




**Anabledd**

Mae gweithgareddau bob dydd **1 mewn 5** o bobl Wrecsam wedi'u cyfyngu oherwydd afiechyd. Dyna **27,905** o bobl.<sup>2</sup> Nid yw'r cyfrifiad yn casglu gwybodaeth benodol ynglŷn â nifer y bobl sydd ag anabledd, ond gellir defnyddio gwybodaeth berthnasol o'r wybodaeth am fudd-daliadau anabledd.<sup>3</sup>

<sup>1</sup> Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol © Hawlfraint y Goron 2012. Yr ateb a roddwyd oedd, Gwyn: Sais/Saesnes / Cymro/Cymraes / Albanwr/Albanes / Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon / Prydeiniwr/Prydeinwraig

<sup>2</sup> Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol © Hawlfraint y Goron 2012. Dywedodd y sawl a atebodd fod eu gweithgareddau bob dydd wedi'u cyfyngu 'rhywfaint' neu 'i raddau helaeth' gan broblem iechyd hirdymor neu anabledd.

<sup>3</sup> Data gan Nomisweb ar 25 Medi 2013. Ffynhonnell: nifer sy'n hawlio budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau – grŵp cleient oedran gwaith



More than 1 in 10 people in Wrexham are carers. Some of them children. 3% of local people provide more than 50 hours of unpaid care a week.

**Hawliadau Budd-daliadau Anabledd yn Wrecsam**  
 Mae **6,070** o bobl leol yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth/budd-dal analluogrwydd

Mae **1,290** o bobl leol yn hawlio budd-dal Anabledd

Mae **1,560** o bobl leol yn hawlio budd-dal Gofalwyr

Mae mwy nag 1 o bob 10 o bobl Wrecsam yn ofalwyr. Mae rhai ohonynt yn blant. Mae 3% o bobl leol yn rhoi mwy na 50 awr o ofal di-dâl bob wythnos.

### Ceisiadau am gyfieithu 2011/12 a 2012/13

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwybodaeth a gwasanaethau i gwsmeriaid yn eu hiaith eu hunain. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n partner i gynorthwyo pobl i gael mynediad at gyrsiau Cymraeg a Saesneg.

Defnydd o iaith				Defnydd o iaith			
2012/13				2011/12			
laith	Cyfieithu dros y ffôn	Cyfieithu dogfennau	Cyfanswm	laith	Cyfieithu dros y ffôn	Cyfieithu dogfennau	Cyfanswm
Arabeg	2		2	Arabeg	4		4
Bengaleg	1		1	Bengaleg	5	2	7
Tsieinëeg (syml)		4	4	Tsieinëeg (syml)		4	4
Tsieinëeg (traddodiadol)			0	Tsieinëeg (traddodiadol)		1	1
Cantoneg	1			Cantoneg			0
Tsieceg			0	Tsieceg	4		4
Farsi (Perseg)	1		1	Farsi (Perseg)	1		1
Ffrangeg	4		4	Ffrangeg	2		2
Almaeneg			0	Almaeneg			0
Cwrdeg (Bahdini)	19		19	Cwrdeg			0
Cwrdeg (Sorani)	3		3	Cwrdeg (Sorani)	3		3
Lithwaneg			0	Lithwaneg	1		1
Mandarin	13		13	Mandarin	6		6
Pashto			0	Pashto			0
Pwyleg	108	23	131	Pwyleg	112	21	133

Portiwgaleg	14	5	19	Portiwgaleg	12	1	13
Rwseg			0	Rwseg			0
Sbaeneg	1		1	Sbaeneg			0
Slofaceg	6		6	Slofaceg			0
Tamileg			0	Tamileg			0
Tigrinia			0	Tigrinia			0
Tyrceg			0	Tyrceg			0
Wrdw	2		2	Wrdw	1		1
Cyfanswm	175	32	206	Cyfanswm	151	29	180

## Ysgolion

### Proffil Llywodraethwyr Ysgolion yn ôl rhyw – Ionawr 2013

#### Ysgolion cynradd

Rhyw	Nifer	%
Gwrywod	272	40.05%
Benywod	407	59.95%
<b>Cyfanswm</b>	<b>679</b>	<b>100.00%</b>

#### Ysgolion uwchradd

Rhyw	Nifer	%
Gwrywod	81	56.25%
Benywod	63	43.75%
<b>Cyfanswm</b>	<b>144</b>	<b>100.00%</b>

#### Cyfanswm Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Rhyw	Nifer	%
Gwrywod	353	42.90%
Benywod	470	57.10%
<b>Cyfanswm</b>	<b>823</b>	<b>100.00%</b>

### Proffil disgyblion ysgol yn ôl cefndir ethnig – Ionawr 2013

YSGOLION CYNRADD	
Cefndir Ethnig	%
Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	6.39%
Gwyn Prydeinig (WBRI)	88.46%
Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH)	1.57%
Ni chafwyd unrhyw wybodaeth (NBOT)	3.33%
Wedi gwrthod rhoi gwybodaeth	0.25%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.00%</b>

<b>YSGOLION UWCHRADD</b>	
<b>Cefndir Ethnig</b>	<b>%</b>
Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	4.94%
Gwyn Prydeinig (WBRI)	92.27%
Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH)	2.20%
Ni chafwyd unrhyw wybodaeth (NBOT)	0.06%
Wedi gwrthod rhoi gwybodaeth	0.53%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.00%</b>

<b>YSGOLION ARBENNIG</b>	
<b>Cefndir Ethnig</b>	<b>%</b>
Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	4.17%
Gwyn Prydeinig (WBRI)	92.05%
Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH)	3.79%
Ni chafwyd unrhyw wybodaeth (NBOT)	0.00%
Wedi gwrthod rhoi gwybodaeth	0.00%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.00%</b>

### **Siop Wybodaeth i leuenctid**

Defnyddir yr wybodaeth hon i'n cynorthwyo i ddatblygu ein gwasanaethau gwybodaeth i bobl ifanc.

#### 1. Rhyw yn ôl Nifer a %

<b>Rhyw</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Gwrywod	4518	46.6 %
Benywod	5182	53.4 %
<b>Cyfanswm</b>	<b>9700</b>	<b>100.0%</b>

#### 2. Proffil Oedran yn ôl %

<b>Oedran</b>	<b>%</b>
11-13	5.2%
14-15	31.5%
16-19	49.4%
20-25	9.5%
Dros 25	2.3%
Rhiant / Gofalwr	1.3%
Oedolyn yn cynrychioli unigolyn ifanc	0.8%

#### 3. Anabledd yn ôl %

<b>Anabledd</b>	<b>%</b>
Anabl cofrestredig	0.64%
Ddim yn anabl	0.00%
Anhysbys	99.36%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.00%</b>

#### 4. Hil ac Ethnigrwydd yn ôl %

Hil ac Ethnigrwydd	%
Du	6.84%
Gwyn	92.82%
Asiaidd	0.17%
Cymysg	0.17%
Arall	0.00%
Anhysbys	0.00%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.00%</b>

#### **Troseddau Casineb**

Mae'r canlynol yn rhoi manylion am y math a nifer y troseddau casineb a adroddwyd i Brosiect Adrodd Trydydd Parti'r Cyngor yn 2012/13. Defnyddir y data hwn i'n cynorthwyo i gynnig hyfforddiant a chymorth sydd wedi'i dargedu:

Natur y Drosedd Casineb	Nifer yr Adroddiadau
Hiliol	36
Tueddfryd Rhywiol	5
Anabledd	3
Rhyw	2
Ffydd	1
Heb ddatgelu	9

Cyfanswm Nifer y Troseddau Casineb a Gafodd eu Hadrodd (2012/13)	50*
--	-----

\* Gall pobl adrodd am fwy nag un math o drosedd casineb o fewn yr un digwyddiad, er enghraifft hil ac anabledd. Felly gall cyfanswm y math o droseddau a gafodd eu hadrodd fod yn wahanol i gyfanswm y troseddau a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn.

**Gwybodaeth am weithwyr** – gweler yr [Adroddiad Monitro Cydraddoldeb yn y Gweithlu](#)

**Rhestr Termau**

AA – Adran Amgylchedd  
ADE – Adran Asedau a Datblygu Economaidd  
ADGO – Adran Dysgu Gydol Oes  
AEG – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  
ATDC – Adran Tai a Diogelwch y Cyhoedd  
BME – Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig  
CAADA – Gweithredu Cydlynol yn erbyn Cam-drin Domestig  
CAMHS – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed  
CCS – Cynllun Cydraddoldeb Strategol  
CLILC – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Estyn – Estyn yw'r swyddfa arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru  
GCO - Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion  
GCCCh – Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid  
GGC – Grŵp Gwella Cydraddoldeb  
LGBT - Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol  
LICD – Adran Lles Cymunedol a Datblygu  
MARAC – Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth  
PPhi – Plant a Phobl Ifanc